# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 05.04.01

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes unrhyw fwriad i sicrhau bod y Cynulliad yn cynnig mwy o arian ar gyfer ysgolion Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru. (WAQ10994)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gyllid sydd ar gael i ysgolion a chanddynt ddisgyblion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn i sicrhau bod holl adeiladau'r ysgol yn hygyrch iddynt. (WAQ10995)

**Lorraine Barrett (Caerdydd a De Penarth);** A all y Gweinidog egluro pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer athrawon cyflenwi yng Nghymru o ran eu cyflog, codiadau cyflog, pensiynau a darpariaethau datblygu proffesiynol. (WAQ10998)

**Lorraine Barrett (Caerdydd a De Penarth);** A all y Gweinidog egluro sut y rhoddir cyfrif am waith cyflenwi ar ôl cael swydd ddysgu lawn amser. (WAQ10999)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa arian ychwanegol y mae'r Cynulliad yn ei gynnig i ysgolion ar hyn o bryd i'w galluogi i ddarparu ar gyfer disgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig. (WAQ11000)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut y bydd hi'n mynd ati i geisio sicrhau na ddefnyddir dosbarthiadau 'portacabin' mewn ysgolion a chanddynt ddisgyblion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. (WAQ11001)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pan ysgrifennodd y Gweinidog at ffermwyr i esbonio'r polisi difa, a ysgrifennodd at bob perchennog defaid, gan gynnwys y rheiny nad ydynt yn derbyn Taliadau'r Premiwm Blynyddol Defaid. (WAQ10996) **R**

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau a dderbyniodd o du'r

gymuned ffermio ynghylch costau gwrtaith. (WAQ10997)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw’n bwriadu gweithredu yn sgil y cynnydd ym mhris gwrteithiau. (WAQ11002)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi’u cael gyda’r Ysgrifennydd Gwladol dros Amaethyddiaeth ynghylch a fydd y cais am ganiatâd i ddefnyddio brechiadau gan y Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn gymwys yng Nghymru. (WAQ11003) **R**